

Golygyddol

CYMDEITHAS BOB OWEN

Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

CYMDEITHAS BOB OWEN
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn

SWYDDOGION

Cadeirydd:

E.WYN JAMES,
Ysgol y Gymraeg, Priysgol Caerdydd.

Ysgrifennydd:

ANGHARAD JONES
1 Rhês y Priordy, Vinegar Hill,
Caernarfon, LL55 1TB
(01286) 77354 neu (01286) 679636

Trysorydd:

GWYNDAF ROBERTS,
Cae'r Hafod, Maes Caled,
Dolgellau LL40 1UF
(01341) 423959

Golygydd:

MEL WILLIAMS
Tanycastell, Llanuwchllyn,
Y Bala, Gwynedd, LL23 7TA
(01678) 540652
e-bost: tanycastell@yahoo.com

CYNNWYS

	Tud.
Golygyddol	2
Llythyrau Peredur	3
Billy De Wolfe	5
Llechi Hynod	6
Cymdeithas Ddirwestol	7
At y Golygydd	10
Cynghrair y Cenhedloedd	11
Crwydro Caer	12
Arwerthiant Llyfrau	14
Delwedydd a'i Arwyr 1	15
Miriam - y Berl Rian	17
Croesi'r Berwyn	21
Adolygiadau	22

LLUN Y CLAWR

Llun o Bentref Portmeirion
© Llun Lis Williams

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a hysbysebion i'r golygydd
erbyn Mai 20

GWASANAETH Y DEILLION

Mae'r Gymdeithas yn darparu tapiau
llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn
Y Casglwr i Danysgrifwyr yn unig.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â
Miss Anne K. Till (01970) 920235

Maint Y Casglwr

Dwi'n hynod falch fod cymaint ohonoch
wedi cysylltu i ddatgan eich croeso i'r maint
newydd. Fel y crybwyllais y tro diwethaf,
mae yna fanteision ariannol ynghlwm wrth y
newid megis ein bod yn talu cannoedd o
bunnau yn llai yn y postio ac yn yr argraffu.
Os oes gennych gwyn, gadewch imi wybod.

Diwrnod Agored Ym Mhortmeirion

Mae gennym arlwy ar eich cyfer yno.
Dowch yn llu. Fe gewch gyfle i grwydro'r
pentref, mwynhau darlithoedd hwyliog ac
arddangosfa'r Llyfrgell Genedlaethol; cyfle i
bori a phrynu hen lyfrau a llond eich bol o
fwyd. Bydd y Cyfarfod Blynnyddol ddechrau'r
prynhawn, ac yno cewch gyfle i ymuno yn y
trafodaethau a chynnig syniadau. Peidiwch
â'i gadael yn rhy hwyr. Anfonwch eich
ffurflen archebu ar unwaith i sicrhau lle.

Aelodau

Rwyf ar gefn fy ngheffyl eto. Mae yna nifer
o aelodau yn dal i ddiystyrru'r galw iddynt
dal eu tâl aelodaeth. Yn ystod y mis
diwethaf, cafodd y Trysorydd wared ar dros
gant o enwau. Mae hyn ynddo'i hun yn arbed
£55 mewn stampiau yn unig. Rydym yn dal â
1000 o aelodau ac mae trichwarter o'r rheini
yn talu drwy archeb banc. Mae rhai yn
mynnu talu drwy siec blynnyddol. Does dim
byd o'i le yn hynny os ydynt yn ymweld â'r
Eisteddfod ond i'r rhai hynny sydd ddim yn
cofio talu, mae'n costio amser, cludiant a
stamp i'w hatgoffa, ac mae'r holl wariant yn
y pen draw yn dreth ar goffrau'r Gymdeithas.
Gan nad ydym yn cael grant, mae'r aelodau
hynny sydd ddim yn talu yn rhwystr inni
ddatblygu Y Casglwr a'r Gymdeithas gan
nad ydym byth yn siwr beth yw ein cyllid
blynnyddol tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Oherwydd y diffyg, mae yna gynnig yn y
Cyfarfod Blynnyddol i godi'r tâl aelodaeth i
£10 y flwyddyn. Mi fydd hyn eto'n eitem i'w

goresgyn gan y bydd yn rhaid i ni gysylltu â
phawb ac adnewyddu'r holl Archebion Banc.
Bydd yn rhaid dychwelyd y ffurflenni er
mwyn i'r Trysorydd gysylltu â'u banciau.
Ond gyda'ch cefnogaeth chi, dylem lwyddo.

Rhodd Gymorth

Mae'r rhodd gymorth yn gweithio'n iawn
erbyn hyn a daw incwm oddi wrtho'n
flynyddol. Eto, dim ond treuan o'r aelodau
sydd wedi eu llenwi. Dim ond llofnod sydd ei
angen ac yna dychwelyd y ffurflen at y
Trysorydd. Mae hyn yn dal gafael ynddynt.
Dydy o ddim yn eu hanfon at y Treth Incwm,
ac wrth gwblhau hyn, rydym yn elwa o £2.50
y pen. Hawdd ynte. Ond mae'n rhy anodd i
rai. A hnewch chi, os gwelwch yn dda, eu
dychwelyd wedi'u cwblhau?

Prynu dogfennau

Da clywed bod y Parch Ddoctor D. Wyn
Wiliam a chyn ysgirfennydd y Gymdeithas
wedi llwyddo i brynu eitemau gwerthfawr
iawn yn Sotheby's drod yn ôl ar gyfer
Cymdeithas y Morysiaid. Dyw ei lygaid
barcut yn methu dim. Ardderchog yn wir.
Mae hyn yn dod â ni at yr holl wariant tai gan
berchnogion, fel arfer, o bell, a hwythau yn
llosgi llawysgrifau ac ati yn eu brys i gael
gwerthu'r eiddo. Byddwch ar eich
gwyludwriaeth! Os yw hyn yn digwydd,
gwnewch yn siwr eich bod yn mynd i weld y
perthnasau, a gadewch inni wybod, er mwyn
inni wneud yn siwr nad oes rhywberth
gwerthfawr yn diflannu. Chi sy'n byw'n lleol
a all wybod pwy fyddai â hen ddogfennau.
Rhaid ichi ddim ond darllen erthygl Nia
Rhosier i weld sut yr achubwyd eitemau
gwerthfawr o sgip ym Mangor. Byddwch yn
fyw i'r hyn sy'n digwydd o'ch cwmplas.

Y Llywydd Anrhydeddus

Trist clywed i Dafydd Lloyd Hughes, ein
Llywydd Anrhydeddus, gollu ei wraig dros
gyfnod y Nadolig. Estynnwn ein
cydymdeimlad at yr holl deulu.

Cymdeithas Bob Owen

FFAIR LYFRAU, RECORDIAU A MÂN GREIRIAU

Festri Capel Heol Awst, CAERFYRDDIN

SADWRN 28 EBRILL, 2007
10 y bore tan 4 y prynhawn

*Miloedd o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar werth yn ogystal â recordiau,
hen greiriau a llawer mwy.*

Mynediad £1 (yn cynnwys tē neu goffi)

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar 01678 540 652

Am fwy o fanylion, anfonwch ay y Golygydd 01678 540 652